

Cofio diwedd yr Ail Ryfel Byd

Dathliadau Diwrnod VE yn Llundain

Yn 2025 nodwn 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, gyda Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE) ar 8 Mai a Buddugoliaeth dros Japan (VJ) ar 15 Awst.

Ni fyddai diwedd y rhyfel mwyaf difrodus mewn hanes wedi bod yn bosibl heb ymdrechion ac adnoddau ar y cyd holl Genhedloedd y Cynghreiriaid, o'r dwyrain a'r gorllewin, o'r Gymanwlad a thu hwnt.

Fel eiriolwr Cofio, anrhydedda'r Llang Brydeinig Frenhinol y rheini a wasanaethodd. Trwy eu dewrder, eu cadernid a'u hymroddiad fe wnaethant ail-lunio'r byd modern gan roi'r rhyddid yr ydym yn ei fwynhau heddiw. Trwy nodi'r pen-blwyddi pwysig iawn hyn gyda'n gilydd, diogelwn eu gwaddol gan sicrhau bod eu haberth bob amser yn cael ei gofio.

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol yn talu teyrnged i genhedlaeth yr Ail Ryfel Byd trwy adrodd eu straeon.

Ymunwch â ni wrth gofio. I ddysgu mwy, sganwch y cod QR:

